*This document is available in English*
*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg*

# Cydgynllun Datblygu Lleol Blaenau Gwent a Thorfaen (2026-2041)

# Cytundeb Cyflawni Drafft
# Crynodeb Gweithredol - Gorffennaf 2026

**Cyflwyniad**

1.1 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (DCPhG) 2004 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol (ACLl) i gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer eu hardaloedd. Mae'r Cytundeb Cyflawni Drafft yma wedi ei baratoi ar y cyd gan Gynghorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Thorfaen i ddylanwadu ar a goleuo paratoi Cydgynllun Datblygu Lleol (CGDLl) Blaenau Gwent a Thorfaen. Ar ôl ei fabwysiadau, bydd y CGDLl yn disodli Cynlluniau Datblygu Lleol unigol Blaenau Gwent a Thorfaen, a fydd yn parhau mewn grym tan y pryd hwnnw.

**Cytundeb Cyflawni ar gyfer Cydgynllun Datblygu Lleol (2026-2041)**

1.2 Cyn y gall gwaith ddechrau ar CGDLl, mae'n rhaid i Gytundeb Cyflawni (CC) gael ei baratoi gan y Cynghorau a'i gytuno gyda Llywodraeth Cymru (LlC). Felly, mae'r Cynghorau'n ymgynghori ar Gytundeb Cyflawni Drafft. Mae'r ddogfen hon yn Grynodeb Gweithredol o'r Cytundeb Cyflawni Drafft.

**Pwrpas y Cytundeb Cyflawni**

1.3 Datganiad cyhoeddus cryno yw Cytundeb Cyflawni ac mae'n cynnwys dwy ran allweddol: 'Amserlen' ar gyfer paratoi CGDLl a'r 'Cynllun Cynnwys Cymunedol' (CCC), yn gosod gerbron sut a phryd y gall rhanddeiliaid a'r gymuned gyfrannu at baratoi, datblygu, monitro ac adolygu'r cynllun.

1.4 Mae Adran 2 y 'Cytundeb Cyflawni Drafft' yn cynnwys yr **Amserlen Camau Allweddol** canlynol (gan gynnwys dyddiadau cyfranogiad allweddol*)

| Cam | Disgrifiad y Cam | Amserlen |
|---|---|---|
| **1** | **Adolygu'r CDLl a Datblygu'r Sylfaen Tystiolaeth** | |
| | Cyhoeddi Adroddiad Adolygu CDLl Torfaen | Ebr-18 |
| | Cyhoeddi Adroddiad Adolygu CDLl Blaenau Gwent | Ion-20 |
| | Datblygu Sylfaen Tystiolaeth y CGDLl | yn parhau |
| **2** | **Cytundeb Cyflawni** | |
| | Cynghorau'n ystyried y Cytundeb Cyflawni drafft | Gor-26 |
| | Ymgynghoriad ar y Cytundeb Cyflawni drafft * | Gor - Awst 26 |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynghorau'n ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn Cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni i Lywodraeth Cymru | Tach-26 |
| | Cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru / Cynghorau'n Cyhoeddi Cytundeb Cyflawni | Rhag-26 |
| **3** | **Cyfranogiad Cyn Adneuo** | |
| | Galwad am Safleoedd Ymgeisiol | Ion - Maw 27 |
| | Ymgysylltiad ar Weledigaeth ac Amcanion y CGDLl | Meh-27 |
| | Ymgysylltiad ar Dwf ac Opsiynau Gofodol | Gor-27 |
| | Datblygiad Strategaeth Ffafredig y CGDLl | Gor - Rhag 27 |
| | Cynghorau'n ystyried Strategaeth Ffafredig y CGDLl | Ion-28 |
| | Ymgynghoriad ar Strategaeth Ffafredig y CGDLl (6 wythnos)* | Chw - Maw 28 |
| **4** | **Adneuo Statudol Cynigion** | |
| | Asesu ymatebion i'r ymgynghoriad a Pharatoi'r CGDLl Adneuol | Ebr - Medi 28 |
| | Cynghorau'n ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn Adneuo CGDLl | Hyd-28 |
| | Ymgynghoriad ar y CGDLl Adneuol (6 wythnos)* | Tach-Rhag 28 |
| **5** | **Cyflwyno i Lywodraeth Cymru** | |
| | Asesu ymatebion i'r ymgynghoriad a pharatoi i gyflwyno'r Cynllun | Ion - Meh 29 |
| | Cynghorau'n ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a chyflwyno'r Cynllun | Gor-29 |
| | Cyflwyno'r Cynllun i Lywodraeth Cymru | Gor-29 |
| **6** | **Archwilio'r CGDLl** | Gor 29 - Ebr 30 |
| **7** | **Derbyn Adroddiad yr Arolygydd** | Mai-30 |
| **8** | **Mabwysiadu'r CGDLl** | Meh-30 |
| **9** | **Adroddiad Monitro Blynyddol CGDLl 1af** | Hyd-32 |

1.5 Mae adran 3: o'r 'Cytundeb Cyflawni Drafft' yn darparu'r '**Cynllun Cynnwys Cymunedol'** (CCC), sy'n nodi egwyddorion, strategaeth a phroses y Cyngor ar gyfer ymgysylltu'n rhagweithiol â'r gymuned drwy gydol y broses o baratoi'r CGDLl. Bydd ymgysylltiad cynnar â'r gymuned ac adeiladu consensws yn elfen bwysig o'r CGDLl newydd, er mwyn bodloni egwyddorion Llywodraeth Cymru.

1.6 Awgrymir amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu o gyswllt uniongyrchol trwy lythyr ac e-bost i'r cyfryngau cymdeithasol, hysbysebion, arddangosfeydd gwybodaeth gyhoeddus a gweithdai, sy'n dangos sut mae pobl a sefydliadau i fod yn rhan o baratoi'r cynllun newydd. Mae'r Cytundeb Cyflawni Drafft hefyd yn cynnwys rhestr o'r holl gyrff ymgynghori penodol, cyffredinol ac eraill y bydd ymgynghoriad â nhw drwy gydol y broses ac a fydd yn rhan o'i baratoi.

1.7 Bydd y Cynghorau'n defnyddio pecyn ymgynghori ar-lein a elwir **'OpusConsult'** fel y prif fodd i randdeiliaid gyflwyno sylwadau ffurfiol am y CGDLl a dogfennau cysylltiol. Felly, fe'ch anogir i gofrestru gydag OpusConsult i gymryd rhan, derbyn y newyddion diweddaraf a chael ymgynghori â chi am y Cynllun newydd, cyfarwyddyd cynllunio atodol, etc.

1.8 Mae adran 4: o'r 'Cytundeb Cyflawni Drafft' ar **'Monitro ac Adolygu'** yn dangos sut y bydd y Cynghorau’n sicrhau bod paratoi'r CGDLl yn cael ei gadw at amserlen drwy gydol y broses a byddant yn cynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol ar sut mae'r cynllun newydd yn gwneud bob blwyddyn ar ôl ei fabwysiadu. Yna, oni bai bod yr AMB yn dangos nad yw'r cynllun yn gweithio a bod angen adolygiad cynnar, bydd y cynllun yn cael ei adolygu bob pedair blynedd beth bynnag.

1.9 Ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r ddau Gyngor ym mis Tachwedd 2026 i ystyried yr holl sylwadau a wnaed ac i gymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni (fel y'i diwygiwyd) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer cytundeb terfynol (disgwylir ym mis Rhagfyr 2026).

1.10 Ar ôl cytundeb gan Lywodraeth Cymru, bydd gwaith wedyn yn dechrau ar baratoi'r CGDLl yn unol â'r Cytundeb Cyflawni a gyhoeddwyd.

1.11 **Bydd y Cynllun Cyflawni Drafft yn destun ymgynghoriad am 6 wythnos o ddydd Gwener 24ain Gorffennaf tan 11:59pm ddydd Gwener 4ydd Medi 2026.**

Rydym yn croesawu eich barn am y Cytundeb Cyflawni Drafft erbyn y dyddiad hwn trwy ddefnyddio ein **ffurflen sylwadau** (yn Gymraeg neu yn Saesneg) a’i dychwelyd atom ni drwy e-bost at enquiries@bgtjointldp.org.uk neu’n ysgrifenedig at yr ‘Uned Polisi Cynllunio a Rennir’ yn naill un o:

- CBS Blaenau Gwent, Y Swyddfeydd Cyffredinol, Heol y Gwaith Dur, Glyn Ebwy, NP23 8UW
- CBS Torfaen, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, NP4 6YB